Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Mr Clwyd Rogers (Llannefydd), priod annwyl i Beryl, tad addfwyn i Marian Owen a Helen Davies (Llannefydd) ac Arwyn, ac yn daid balch a hwyliog i'w wyrion a'i wyresau, ac yn frawd hoffus i Gwen Evans (Saron) a'i chwiorydd eraill. Ag yntau â llais tenor hyfryd, bu'n arwain y canu ac yn aelod ffyddlon yn y capel a'r Ysgol Sul yn Llannefydd ar hyd y blynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu galar a'u hiraeth, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth i iddynt.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Meira Jones (Groes) a'r teulu i gyd ym marwolaeth mam Meira, sef Mrs Gwen Morris hefyd o'r Groes, ac â Berwyn Evans (Llansannan) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli chwaer i Berwyn, sef Mrs Enid Roberts o Ddinbych. Cyflwynwn y teuluoedd hyn hefyd i ofal yr Arglwydd.

Anfonwn ein cofion at Gwilym Davies (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, ac Eurgain Pierce (Llannefydd) sydd bellach yn cael gofal yn yr Inffirmari. Rydan ni'n llawenhau fod Merfyn Hughes (Llansannan) wedi cyrraedd adre o'r ysbyty erbyn hyn wedi cyfnod o bron i flwyddyn mewn gwahanol ysbytai. Diolchwn am y gofal arbennig a gafodd ar hyd yr amser, a pharhawn i weddïo y bydd yn dal ati i wella dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Cyflwynwn y tri ohonynt, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw y dyddiau hyn.

Llongyfarchiadau i Dewi Williams (Hiraethog) ac Alys Roberts (Llansannan) ar eu dyweddïad. Gweddïwn am fendith Duw ar eu perthynas.

Diwrnod Gweddi Craig Blaenau (a 100 i Gymru)

(https://100.cymru)

Daeth gwahoddiad gan Joseff Edwards i ymuno yn Niwrnod Gweddi cyntaf Craig Blaenau ym Mlaenau Ffestiniog dydd Gwener, Chwefror 2il o 12:00 – 21:00 fydd yn cael ei gynnal yn Sinema a Chanolfan y Celfyddydau CellB, Sgwâr y Parc, Blaenau Ffestiniog LL41 3AD. Mae'r diwrnod (sydd wedi ei siapio gan Weddi'r Arglwydd) wedi'i rannu i gyfnodau byrrach, felly mae croeso i unrhyw un ymuno am awr yn unig os mai dyna yw'r dymuniad. Y bwriad yw gorffen y dyddiau hyn gyda Dathliad Gweddi, gan ymgynnull y saint ar draws y rhanbarth i rannu hanesion am yr hyn mae Duw yn ei wneud a'i geisio am fwy. Mae'r digwyddiad am ddim, ond byddai archebu tocynnau i'r cyfnodau o'r dydd y byddem am ymuno yn eu helpu i baratoi ar ein cyfer. Mae modd archebu tocyn dydd llawn, tocyn i'r dathliad nos, neu docyn ar gyfer cyfnod gweddi penodol. Mae'r manylion i gyd i'w gweld ar https://www.eventbrite.com/e/diwrnod-gweddi-blaenau-ffestiniog-prayer-day-tickets-790048033937?utm-campaign=social&utm-content=attendeeshare&utm-medium=discovery&utm-term=listing&utm-source=cp&aff=ebdsshcopyurl.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28 Ionawr 2024

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Tywys di fi i'r dyfodol . . .

Oni fyddai'n braf cael newyddion da yn lle newyddion drwg o hyd gan y cyfryngau? Trychinebau, argyfyngau, trais, ymgecru a rhyfeloedd–- dyma brif thema'r newyddion oni bai am ambell newydd da am ryw ddihangfa ddramatig neu dro trwstan ddigri. Wrth i'r wythnosau a'r blynyddoedd basio, hawdd iawn anobeithio a meddwl fod y byd yn gwaethygu a bywyd yn mynd yn galetach ac yn anoddach. Mae anobaith a diffyg ystyr yn beichio bywyd llawer. Hyd yn oed fel Cristnogion, gall gormes a thywyllwch y byd drygionus a stormydd personol megis afiechyd neu alar achosi i ni golli golwg ar Dduw. Cawn ein temtio i feddwl bod Duw wedi anghofio amdanom.

Ond nid profiad ein hoes ni yn unig ydy hyn. Wrth ddarllen llyfr y Salmau gwelwn fod y profiadau hyn yn real iawn i'r Salmydd hefyd, "Fel y dyhea ewig am ddyfroedd rhedegog felly y dyhea fy enaid amdanat ti o Dduw" (Salm 42). Profiad o fod yn sychedu am gysur cwmni Duw sydd yma. "Yn nydd fy nghyfyngder ceisiais yr Arglwydd" (Salm 77:1). Eto yn ei argyfwng mae'n galw ar Dduw. Ond ar ba sail y mae'n galw ar Dduw yn ei angen? "Galwaf i gof weithredoedd yr Arglwydd a chofio dy ryfeddodau gynt"(Salm 77:11). Sylwch nad Duw marw sydd ganddo ond Duw i siarad ag o a rhannu ei ofidiau ag o, un i ymddiried ynddo, un y gall ddisgwyl gwaredigaeth ganddo. Duw byw ydy o. Ym mis Ionawr oer mae'n hawdd anghofio dyddiau braf mis Mehefin. Wrth gofio am weithredoedd Duw drosom yn Iesu Grist a rhannu ei ymwneud graslon â theulu ffydd dros y canrifoedd, cawn obaith i'n henaid. Trwyddo ef daw goleuni i'n byd tywyll. Dyma addewid Iesu, "Fi ydy golau'r byd. Bydd gan y rhai sy'n fy nilyn i olau i'w harwain nhw i fywyd, a fyddan nhw byth yn cerdded mewn tywyllwch." (Ioan 8:12)

Profiad ffydd ydi dweud:

"Dal fi'n agos at yr Iesu ….
Dysg im edrych i'r gorffennol…..
Tywys di fi i'r dyfodol……..;"

Y Parch. R. O. Roberts

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (7fed), os gwelwch yn dda.

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Ionawr 28ain

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Arwel Ellis Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis. Bydd yr Ysgol Sul yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd, ac Ysgol Sul yn Henllan am 10:00.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn.

Dydd Llun, Ionawr 29ain

- **Cyfarfod Plant Pantpastynog** o 3:00-4:00 y pnawn o dan ofal tîm Bro Dinbych.

Dydd Mawrth, Ionawr 30ain

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Llannefydd am 7:30 yr hwyr.

Dydd Mercher, Ionawr 31ain

- Bydd Hyfforddiant Craidd Cymraeg yn cael ei gynnal gan Gymdeithas y Beibl yn Festri Capel Pandy Tudur (LL22 8UL) o 10:00-13:00 i'r rhai fyddai'n hoffi mynd i mewn i ysgolion i gyflwyno straeon o'r Beibl. Am wybodaeth pellach, cysylltwch â'r Parch. Nesta Davies (07870 323790).

Dydd Iau, Chwefror 1af

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele am 6:30 yr hwyr. Yn ystod y cyfarfod, bydd Mr Meirick Lloyd Davies yn trosglwyddo'r llywyddiaeth i'r Parch. Andras Iago. *** DYDDIAD WEDI EI AIL-DREFNU**

Dydd Gwener, Chwefror 2il

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Chwefror 4ydd

- **Bore Bro Aled –** Oedfa i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yng Nghapel Henllan am 10:30 o dan arweiniad Mr Arawn Glyn.

Dydd Llun, Chwefror 5ed

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Grym Gweddi' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. (Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.) Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ddolen i gysylltu (01678 520565).

Dydd Mawrth, Chwefror 6ed

- **Paned a Sgwrs** yn Festri Llansannan am 13:30. Pnawn yng nghwmni Eifion Jones. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Iau, Chwefror 8fed

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?

Dydd Sul, Chwefror 11eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones. Bydd yr Ysgol Sul yn Groes yn dilyn yr oedfa.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn.

Coleg y Bala

- **Aduniad Souled Out (2il-4ydd Chwefror 2024)** – penwythnos i bobl ifanc 15+ a myfyrwyr. Cyfle i weld hen ffrindiau, cyfarfod â phobl newydd, mwynhau gweithgareddau hwyl, yn ogystal ag addoli Duw a dysgu mwy amdano wrth archwilio'r Beibl hefo'n gilydd. Cost y penwythnos fydd £72.
- **Chwalfa Chwefror (Chwefror 12fed-13eg) –** deuddydd i blant 8-11 oed fydd yn llawn gemau, crefft, nofio, crempogau, sialensiau tîm, sgyrsiau byr ar beth mae'n ei olygu pan mae Iesu'n galw ei hun yn "Bara'r Bywyd", a llawer mwy... Cost y penwythnos fydd £49.
- **Cwrs Ieuenctid (Chwefror 16eg-18fed) –** penwythnos i bobl ifanc blynyddoedd 7-10. Bydd y penwythnos yn llawn gemau gwirion, sialensiau tîm, nofio, *footgolf*, crefft, canu, noson 'têc awê', 'Bingo Boncyrs' a lot mwy..., a hefyd byddwn yn edrych gyda'n gilydd ar yr adnod "Profwch a gwelwch mai da yw'r Arglwydd."

Mae'n bosib cofrestru ar-lein (colegybala.org) neu trwy ffonio 01678 520565. (Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd person o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob disgybl mewn addysg sydd am fynychu.)